Ydych chi'n cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Edrychwch arno yn eich porwr.

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




Rhifyn 302 (Cymru) – 11 Mai 2021

## Etholiadau Mai 2021: casglu adborth a data ar ôl yr etholiadau

Mae'r broses o gyfrif yr holl bleidleisiau wedi dod i ben erbyn hyn ac mae'r holl ganlyniadau wedi'u cyhoeddi ar gyfer etholiadau Mai 2021. Dyma un o'r cyfresi mwyaf cymhleth o etholiadau a gynhaliwyd ers peth amser, yn sgil yr heriau ychwanegol a phellgyrhaeddol a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Gwyddom pa mor heriol yr ydoedd i gynllunio a chynnal etholiadau yn y cyd-destun hwn, ond diolch i waith caled, gwaith cynllunio gofalus ac ymroddiad y timau etholiadol ledled y wlad dros sawl mis, sicrhawyd bod pleidleiswyr, ymgyrchwyr a staff gorsafoedd pleidleisio yn gallu cymryd rhan yn ddiogel ac yn hyderus.

Er y bydd proses fanwl o gasglu a gwerthuso gwybodaeth yn dilyn, mae ein hasesiad cychwynnol yn dangos bod yr etholiadau wedi'u cynnal yn effeithiol. Mae'r dystiolaeth bresennol yn dangos eu bod wedi cael eu cynnal heb broblemau gweinyddol sylweddol nac eang, gan wneud y defnydd gorau o brosesau newydd a rhai a addaswyd i gefnogi mesurau diogel o ran COVID-19, a gan helpu'r etholaeth i gymryd rhan yn y digwyddiadau democrataidd pwysig hyn. Mae'r ffaith ei bod yn ymddangos bod y broses ddemocrataidd wedi cael ei chynnal yn effeithiol yn glod i ymroddiad a gwaith caled y gymuned etholiadol.

Gwyddom y bu'n rhaid goresgyn sawl anhawster, a byddwn yn cydweithio â chi i archwilio'r problemau a wynebwyd gennych ac i ddeall yr effaith a gawsant ar yr etholiadau yn gyffredinol.

Byddwn yn adrodd yn ffurfiol ar y broses o gynnal yr etholiadau yn yr hydref, fel y gellir nodi gwersi pwysig a dysgu ohonynt. Gobeithio y byddwch chi a'ch cydweithwyr yn rhannu eich profiad o gynnal yr etholiadau hyn er mwyn llywio ein hadroddiadau. Mae ein gwaith rheoleiddio hefyd yn dechrau nawr, i gefnogi pleidiau ac ymgyrchwyr i gydymffurfio â'r gofynion ynghylch cyllid ymgyrchu sy'n sicrhau tryloywder i'r cyhoedd.

### Adborth ar weinyddu'r etholiadau

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Etholiadau Mai 2021: casglu adborth a data ar ôl yr etholiadau**

Gwybodaeth am sut i gyflwyno adborth a data ar ôl yr etholiadau yr wythnos diwethaf.

**Etholiadau Mai 2021: cyflwyno ffurflenni gwariant ymgeiswyr i'r Comisiwn**

Gwybodaeth am gyflwyno ffurflenni gwariant ymgeiswyr i'r Comisiwn ar ôl etholiadau mis Mai.

**Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddu Etholiadau yn rheolaidd. Maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Cofiwch roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau postio yn gyfredol.**

**Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol,**

Diolch i bawb sydd eisoes wedi cwblhau'r arolwg. Os hoffech roi eich adborth i ni o hyd, y dyddiad cau ar gyfer gwneud hynny yw dydd Gwener 11 Mehefin.

Mae'r arolwg yn debyg i'r rheini a ddosbarthwyd ar ôl etholiadau blaenorol ac mae'n gofyn am eich safbwyntiau ar agweddau amrywiol ar y broses o weinyddu'r etholiadau, yn cynnwys cofrestru pleidleiswyr, enwebiadau, y diwrnod pleidleisio a'r prosesau cyfrif, yn ogystal â'ch safbwyntiau ar y canllawiau a'r cymorth a roddwyd gan y Comisiwn. Eleni, hoffem hefyd glywed sut y gwnaethoch ddelio ag effeithiau COVID-19 yn eich ardal ac effaith hyn ar eich gwaith yn ystod yr etholiadau.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg, e-bostiwch researchsurvey@electoralcommission.org.uk.

**Casglu data**
Byddwn yn anfon negeseuon e-bost yfory (12 Mai) yn estyn gwahoddiad i chi lenwi data drwy ein porth data ar-lein. Fel y nodwyd ym Mwletin 300, caiff y neges e-bost hon ei hanfon o research@electoralcommission.org.uk i'ch cyfeiriad e-bost cyffredinol ar gyfer etholiadau awdurdod lleol (yn y mwyafrif o achosion).

Os na fyddwch yn cael neges e-bost, gallwch gyfeirio at y canllaw i ddefnyddwyr sy'n cynnwys ar y diwedd restr o'r cyfeiriadau e-bost cyffredinol ar gyfer etholiadau awdurdod lleol a ddefnyddiwyd gennym i gysylltu â chi. Os byddwch yn gweld bod gennym y cyfeiriad e-bost anghywir (neu'r cyfeiriad e-bost cywir ond nad ydych yn cael neges e-bost), cysylltwch â ni.

Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol eisoes wedi cofrestru ar y porth (ers Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2019) sydd ar gael yma, er y bydd angen i chi ailosod eich cyfrinair yn gyntaf.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data yw dydd Llun 21 Mehefin 2021.
Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni ar research@electoralcommission.org.uk.

**Etholiadau Mai 2021: arolwg staff gorsafoedd pleidleisio**
Fel y nodwyd ym Mwletin 300, rydym yn cydweithio â dau academydd i gasglu adborth gan staff gorsafoedd pleidleisio a fu'n gweithio yn yr etholiadau ar 6 Mai, i'n helpu i ddeall effaith mesurau COVID-19 a oedd ar waith eleni.

Diolch i bawb sydd eisoes wedi ein helpu drwy rannu'r arolwg hwn â staff gorsafoedd pleidleisio. Bydd yr arolwg ar agor tan 11 Mehefin a byddem yn ddiolchgar pe gallai'r rheini nad ydynt eisoes wedi rhannu'r arolwg e-bostio dolen i'r arolwg at staff gorsafoedd pleidleisio a fu'n gweithio ar 6 Mai.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg, e-bostiwchresearchsurvey@electoralcommission.org.uk.

## Etholiadau Mai 2021: cyflwyno ffurflenni gwariant ymgeiswyr i'r Comisiwn

Bydd y Comisiwn yn casglu copïau o ffurflenni gwariant ymgeiswyr ar gyfer etholiad y Senedd (ymgeiswyr etholaethol ac ymgeiswyr

**Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data y DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg.**

annibynnol ar y rhestr ranbarthol) a'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Swyddogion Canlyniadau ddarparu'r canlynol i ni:

- Copïau PDF electronig o ffurflenni gwariant ymgeiswyr, datganiadau ac unrhyw anfonebau ategol a/neu dderbynebau a ddaeth i law ar ôl yr etholiad perthnasol, i candidates@electoralcommission.org.uk
- Hysbysiad o unrhyw ymgeiswyr nad ydynt wedi cyflwyno ffurflen gwariant ar yr adeg y byddwch yn anfon copïau PDF o'r ffurflenni atom
- Unrhyw gyfrineiriau a ddefnyddiwyd gennych i gloi'r ffeiliau PDF. Dylid anfon y rhain mewn neges e-bost ar wahân

Nid oes dyddiad cau statudol ar gyfer darparu'r ffurflenni, ond byddem yn ddiolchgar pe gallech wneud hynny erbyn **6 Awst 2021** fan bellaf er mwyn ein galluogi i gyhoeddi data allweddol o'r ffurflenni hyn:

Peidiwch ag anfon:

- Copïau papur o'r ffurflenni
- Y ffurflenni gwreiddiol: rhaid i chi gadw'r rhain i'r cyhoedd allu eu harchwilio am ddwy flynedd ar ôl iddynt ddod i law

Ceir rhagor o wybodaeth am ffurflenni gwariant ymgeiswyr yn Rhan F o'n canllawiau i Swyddogion Canlyniadau.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, e-bostiwch gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
(h) Y Comisiwn Etholiadol 2021